# Cadw Plant a Phobl Ifanc yn Ddiogel

## Mae pob oedolyn yn y Sgowtiaid yn dilyn ein Cod Ymddygiad

**Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.**
**Os oes amheuaeth, riportiwch ef.**

**Rhaid** cofio eich bod yn fodel rôl bob amser, y tu mewn a'r tu allan i'r Sgowtiaid. Mae'n rhaid i chi osod esiampl dda i eraill ei dilyn.

**Rhaid** trin pawb ag urddas a pharch yn unol â gwerthoedd y Sgowtiaid.

**Rhaid** trin pob person ifanc yn gyfartal – peidiwch â dangos ffafriaeth.

**Rhaid** dilyn y cymarebau oedolyn i bobl ifanc bob amser.

**Rhaid** cofio eich bod wedi eich rhoi mewn sefyllfa o ymddiriedaeth – peidiwch â chamddefnyddio'r ymddiriedaeth hon.

**Rhaid** rhoi gwybod am yr holl bryderon diogelu yn uniongyrchol i'r Tîm Diogelu cyn gynted â phosibl, a bob amser o fewn 24 awr.

**Rhaid** cysylltu â'r Tîm Diogelu os ydych chi'n derbyn manylion am unrhyw asiantaeth statudol, megis yr heddlu, Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol neu wasanaethau plant, sy'n ymwneud ag aelod.

**Rhaid** cofio y gallai rhywun gamddehongli eich gweithredoedd.

**Rhaid** parchu hawl plant a phobl ifanc i breifatrwydd personol.

**Rhaid** gweithredu o fewn ffiniau priodol, hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd.

**Rhaid** annog diwylliant agored a thryloyw, lle mae pobl yn herio neu'n rhoi gwybod am ymddygiad nad yw'n unol â'r cod hwn.

**Rhaid** gwneud pawb yn ymwybodol o'n trefniadau diogelu. Rhannwch ein Cerdyn Melyn gyda gwirfoddolwyr, rhieni a gwarcheidwaid, a'i arddangos mewn cyfarfodydd.

**Rhaid** creu amgylchedd lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu lleisio eu pryderon.

**Rhaid** cael llety cysgu ar wahân i bobl ifanc ac oedolion, yn ogystal ag arweinwyr ifanc sy'n gweithio gydag adran iau.

**Rhaid** cynllunio gweithgareddau sy'n cynnwys mwy nag un person arall yn bresennol. Os nad yw hynny'n bosibl, gwnewch yn siŵr bod pobl eraill yn gallu gweld a chlywed beth sy'n digwydd.

**Peidiwch** â chynllunio i fod ar eich pen eich hun gyda phlentyn neu berson ifanc yn y Sgowtiaid, naill ai ar-lein neu yn bersonol.

**Peidiwch** ag yfed alcohol pan fyddwch chi'n gyfrifol am blant a phobl ifanc yn y Sgowtiaid. Peidiwch byth â gadael i blant dan 18 oed yfed alcohol yn ystod g weithgareddau Sgowtiaid.

**Peidiwch** â bychanu pryderon neu gam-drin.

**Peidiwch** â gadael pryderon neu gam-drin heb eu riportio. Cysylltwch â'r Tîm Diogelu, yn enwedig os ydych chi o'r farn nad yw eich pryder wedi'i gymryd o ddifrif.

**Peidiwch** ag ymuno mewn gemau cyswllt corfforol gyda phlant a phobl ifanc.

**Peidiwch** â chroesi'r ffiniau gyda phlant a phobl ifanc trwy fod yn rhan o gyfeillgarwch neu berthynas bersonol gyda nhw.

**Peidiwch** â chaniatáu gweithgareddau sy'n annog ymddygiad bwlio, gan gynnwys seremonïau sefydlu, heriau neu fforffedu.

**Peidiwch** â defnyddio iaith amhriodol, awgrymus neu fygythiol, boed ar lafar, ysgrifenedig neu ar-lein.

**Peidiwch** â dibynnu ar eich enw da neu'ch swydd i'ch amddiffyn chi.

**Peidiwch** â bod yn rhan o bryder diogelu os oes gennych gyfeillgarwch personol neu gysylltiad teuluol â'r rhai sy'n gysylltiedig. Camwch yn ôl a dweud wrth y Tîm Diogelu am y cysylltiad

**Os yw plentyn neu berson ifanc mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 neu 112 a gofynnwch am yr heddlu. Dywedwch wrth y Tîm Diogelu eich bod wedi gwneud hyn.**

### Pobl ifanc

Rydyn ni eisiau i bawb yn y Sgowtiaid fod yn ddiogel ac yn hapus. Os yw oedolyn wedi gwneud i chi deimlo'n wael neu'n anghyfforddus, naill ai y tu mewn neu'r tu allan i'r Sgowtiaid, dywedwch wrthym ni a'ch rhieni neu'ch gofalwr. Byddwn yn gwrando arnoch ac yn eich cymryd o ddifrif.

### Rhieni a gofalwyr

Os ydych chi'n poeni am blentyn neu berson ifanc, neu os oes gennych bryderon am oedolyn sy'n ymwneud â'r Sgowtiaid nad yw'n dilyn y Cod Ymddygiad hwn, cysylltwch â'r Tîm Diogelu.

Os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud, neu os nad ydych yn siŵr a yw pryder wedi'i riportio i ni, cysylltwch â ni.

- **Tîm Diogelu**
  +44(0)20 8433 7164
  **safeguarding@scouts.org.uk**
- **NSPCC**
  0808 800 5000
  **help@nspcc.org.uk**.
- **Childline**
  0800 1111
  Dan 12 oed? **childline.org.uk/kids**
  Dros 12 oed? **childline.org.uk**

Scouts

**scouts.org.uk/safeguarding**

Hawlfraint © 2023 Cymdeithas y Sgowtiaid. Rhifau elusennau cofrestredig 306101/SC038437 Fersiwn 2. 1 Ionawr, 2024